JONES, EDWARD (1834-1900), meddyg ac arweinydd llywodraeth leol

Enw: Edward Jones
Dyddiad geni: 1834
Dyddiad marw: 1900
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: meddyg ac arweinydd llywodraeth leol
Maes gweithgaredd: Meddygaeth; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
Awdur: Rhidian Griffiths

Ganed yn Nolgellau 21 Ionawr 1834 a chafodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Dolgellau a Phrifysgol Glasgow. Ymsefydlodd fel meddyg yn Nolgellau yn 1860 a gwasanaethu cylch eang o Gorris i Drawsfynydd: Ddydd Calan 1883 yr oedd ef a'i fab ymhlith y rhai a alwyd i gynorthwyo pan gafwyd damwain drên angheuol ar y Friog.

Cymerodd ran flaenllaw ym mywyd cyhoeddus Dolgellau a dod yn arweinydd y Rhyddfrydwyr yn y dref a'r ardal. Ef oedd Llywydd cyntaf Cymdeithas Ryddfrydol Sir Feirionnydd a rhoddodd gymorth i Aelodau Seneddol Rhyddfrydol y sir, gan ddatblygu cyfeillgarwch agos â T. E. Ellis. Pan ffurfiwyd Cyngor Sir Meirionnydd yn 1889 penodwyd ef yn Gadeirydd; gwasanaethodd fel Ynad Heddwch, a bu'n gadeirydd cwmnïau dwr a nwy Dolgellau. Ymdrechodd i sicrhau'r llyfrgell rydd a agorwyd yn 1893. Bu hefyd yn feddyg i gymdeithasau cyfeillgar y dref.

Gweithiodd yn ddygn dros ddatblygiad addysg yn y cylch. Chwaraeodd ran flaenllaw yn yr ymdrech i sefydlu Ysgol Dr Williams i ferched, a bu'n gadeirydd llywodraethwyr yr ysgol honno. Ar yr un pryd bu'n frwd o blaid datblygu Ysgol Ganolraddol y Bechgyn yn Nolgellau. Cefnogodd hefyd ddatblygiad achos Saesneg y Methodistiaid Calfinaidd a sylfaenwyd yn y dref yn 1878.

Bu farw 5 Chwefror 1900, gan adael gweddw a saith o blant - chwe mab ac un ferch. Bu dau o'i feibion, Hugh a John, hefyd yn feddygon yn Nolgellau.

Awdur

Rhidian Griffiths

Ffynonellau

Y Dydd, 9 Chwefror 1900

C. C. Green, *The Coast Lines of the Cambrian Railway: Dovey Junction to Barmouth Junction and the Dolgelley Branch* (1996), t. 188-9

W. Gareth Evans, '"An oasis in the wilderness": the establishment of Dr Williams' School, Dolgellau', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionydd*, XII (2), 1995, 155-76

Gwybodaeth gan ei deulu

Darllen Pellach

Archifau LlGC: The Liberal Cause in Merionethshire

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821119

Dyddiad cyhoeddi: 2012-05-02

Hawlfraint Erthygl: https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Griffiths, R., (2012). JONES, EDWARD (1834-1900), meddyg ac arweinydd llywodraeth leol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 15 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c8-JONE-EDW-1834

Copïo i'r Clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government